

Gwahoddiad i ddarparu pris

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn dymuno penodi unigolyn neu gwmni i ymgymryd â phrosiect ymchwil a llunio adroddiad ac argymhellion ar gynnig y Coleg i ddisgyblion, dysgwyr a phrentisiaid Cymraeg a dwyieithog o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (DALIE).

Dylid cyflwyno'r cais erbyn 13:00 ar ddydd Gwener 07/05/2021.

CYFLWYNIAD

Y Coleg sy'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Rydym yn cyd-weithio gyda phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau.

Mae'r Coleg yn gorff cynllunio strategol a chenedlaethol, gyda'r Gymraeg wrth wraidd ein gweledigaeth. Mae'r Coleg yn cyfrannu at gynllunio ac adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf, fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg a Chymru ddwyieithog, a thrwy hynny gwreiddio'r Gymraeg mewn economi a chymuned ffyniannus yng Nghymru.

Ceir mwy o wybodaeth am holl gynlluniau a gweithgareddau'r Coleg ar www.colegcymraeg.ac.uk.

CEFNDIR

Mae'r Coleg yn cefnogi pob ymgais i greu sector ôl-orfodol sy'n sefyll yn gadarn ac yn rhagweithiol yn erbyn hiliaeth. Rydym yn awyddus i sicrhau bod mwy o bobl o gefndir DALIE yn cael mynediad at ac yn derbyn addysg ôl-orfodol Gymraeg a dwyieithog ac mae gennym rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau'r newid sydd angen.

Fel arwydd o'n hymrwymiad i'r agenda wrth-hiliaeth mae'r Coleg wedi llofnodi polisi [Dim Hiliaeth Cymru](#).

Mae'r Coleg yn falch i gymryd camau rhagweithiol am y tro cyntaf i sicrhau bod ein cynnig yn hygyrch ac yn apelgar i bobl DALIE ac yn cydnabod fod cyfraddau ymwneud pobl o'r cymunedau hynny gyda'r Coleg wedi bod yn is nag y byddem wedi ei ddymuno.

Mae swyddogion y Coleg wedi bod yn ystyried a thrafod ein hymateb i'r drafodaeth gyfredol ar wrth-hiliaeth ac wedi sefydlu grŵp mewnol i sicrhau bod cynllun gweithredu'r Coleg i gynyddu ein hymwneud gyda phobl o gefndir DALIE yn cael ei weithredu a bod yr agenda yn cael lle amlwg o fewn cynlluniau'r Coleg.

Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth y Coleg

Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth cychwynnol y Coleg yn canolbwyntio ar sawl elfen gan gynnwys:

- Hyfforddiant i staff

Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau ar y themau o gydraddoldeb ac amrywiaeth i'n staff gan ffocysu ar hil ac mae'r rhain wedi eu hamlinellu islaw:

- sesiwn diweddar gyda chyflwynwyr allanol o'r gymuned DALIE yn trafod profiadau siaradwyr Cymraeg o hiliaeth
- sesiwn hyfforddiant gyda EYST Cymru ar ragfarn a hiliaeth yn erbyn grwpiau penodol o'r gymdeithas
- sesiwn hyfforddiant cyffredinol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi ei gynnal gan Diverse Cymru
- bydd sesiwn ar ragfarn ddarwybod yn cael ei gynnal gan gwmni Elevate BC yn Ebrill a Mai 2021. Bydd mudiadau eraill yn y sector Gymraeg hefyd yn derbyn yr hyfforddiant yma ar y cyd gyda'r Coleg.

- Awdit

Fel cam cychwynnol, lluniwyd rhestr o holl grwpiau rhan-ddeiliadol y Coleg megis staff mewnol, aelodau Bwrdd y Coleg, aelodau'r cynllun llysgenhadon, deiliaid ysgoloriaeth, aelodau o'r cynllun Darlithwyr Cysylltiol, ayyb. Bwriad y Coleg ydy cynnal awdit o gynrychiolaeth pobl o gefndir DALIE o fewn y grwpiau rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn sefydlu gwaelodlin ac ail-adrodd yr awdits ar ôl cyfnod penodol i fesur a oes cynnydd yn ein cyfraddau ymwneud.

Hyd yn hyn mae'r Coleg wedi cynnal awdit o staff mewnol ac mae grŵp mewnol Adnoddau Dynol y Coleg wedi trafod canlyniadau'r awdit ac wrthi'n ystyried y camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod swyddi o fewn y Coleg yn fwy hygyrch i bobl o'r gymuned DALIE.

Mae grwpiau rhan-ddeiliadol eraill wedi eu hadnabod a'r cam nesaf fydd cynnal mwy o awdits er mwyn sefydlu gwaelodlin. Bydd canlyniadau'r awdits yn cael eu hystyried gan y grŵpiau mewnol perthnasol a bwriedir gosod cynlluniau yn eu lle i gynyddu ymwneud a chynrychiolaeth.

- Cynllun [Llysgenhadon](#)

Yn draddodiadol nifer isel iawn o lysgenhadon y Coleg sydd wedi dod o gefndir DALIE. Eleni aethpwyd ati am y tro cyntaf i holi darpar lysgenhadon am eu cefndir ethnig er mwyn i'r Coleg ddechrau monitro hyn gyda'r bwriad o gynyddu'r niferoedd o gefndir DALIE sy'n ymgeisio i fod yn lysgenhadon blwyddyn ar flwyddyn.

Aethpwyd ati am y tro cyntaf eleni hefyd i wneud ymdrech fwriadus i recriwtio llysgenhadon o'r gymuned DALIE trwy dargedu unigolion yr oeddem yn ymwybodol ohonynt.

Penodwyd dau lysgenad o'r gymuned DALIE allan o'r 26 o Lysgenhadon Addysg Uwch y Coleg.

Mae nifer o gynlluniau llysgenhadon gan y Coleg erbyn hyn gan gynnwys:

- Llysgenhadon ysgol
- Llysgenhadon Addysg Bellach
- Llysgenhadon Prentisiaethau
- Llysgenhadon Addysg Uwch
- Llysgenhadon ôl-radd

Mae Llysgenhadon yn chwarae rhan flaenllaw yn hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog ôl-orfodol ac yn ymddwyn fel modelau rôl gyda'u cyfoedion felly mae'n hollbwysig eu bod yn gynrychioladol o boblogaeth Cymru.

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol yn cael eu denu i ymgeisio i fod yn lysgenhadon i'r Coleg ac yn awyddus i ddeall yn well y camau y gellid eu cymryd i wneud y rolau yn fwy hygyrch ac apelgar.

- **Cynllun [Ysgoloriaethau Cymhelliant](#)**

Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn cynnig Ysgoloriaethau Cymhelliant gwerth £500 y flwyddyn i fyfyrwr sy'n bwriadu astudio o leiaf 40cr y flwyddyn o'u cwrs israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol.

Am y tro cyntaf eleni byddwn yn casglu gwybodaeth am ethnigrwydd darpar ysgolorion er mwyn ceisio deall y graddau rydym yn llwyddo i ddenu myfyrwr o gefndir DALIE.

Mae'r Coleg yn awyddus iawn i gynyddu'r nifer o geisiadau a ddaw gan fyfyrwr o'r gymuned DALIE. Er mwyn gwneud hyn rydym yn awyddus i ddeall yn well yr hyn sy'n rhwystro myfyrwr rhag gwneud cais ar hyn o bryd a'r camau rhagweithiol all y Coleg gymryd i ddenu mwy i wneud cais.

- **Proffil Gweledol y Coleg**

Eleni, mae tîmoedd marchnata a chyfathrebu'r Coleg wedi cychwyn gweithio tuag at sicrhau bod ein [gwefan](#), ein cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol (@ColegCymraeg) a'n cyhoeddiadau megis yr [adroddiad blynyddol](#) yn fwy cynrychioladol o boblogaeth Cymru.

Bydd penodi mwy o lysgenhadon ac ysgolorion o gefndir DALIE yn cyfrannu tuag at sicrhau bod delwedd weledol y Coleg yn fwy cynrychioladol, ac o ganlyniad yn debygol o gyfleu sefydliad cynhwysol sy'n fwy perthnasol i bobl o bob cefndir.

MANYLEB

Tra bod yr agenda wrth-hiliaeth wedi cael sylw amlwg yng ngweithgareddau'r Coleg eleni, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy, ac felly ein bwriad ydy comisiynu darn o waith ymchwil gan unigolyn, sefydliad neu gwmni i ddeall yn well beth yw barn disgyblion, dysgwyr a phrentisiaid o gefndir DALIE am gynnig presennol y Coleg (y cynlluniau llysgenhadon a'r cynllun ysgoloriaethau cymhelliant yn benodol), ac i lunio adroddiad a chyflwyno argymhellion ar sut all y Coleg gynyddu ein hymwneud gyda phobl o'r cymunedau hyn er mwyn annog mwy i fanteisio ar addysg ôl-orfodol Cymraeg a dwyieithog.

Teitl	Cynnal ymchwil a llunio adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gynnig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddisgyblion, dysgwyr a phrentisiaid Cymraeg a dwyieithog o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (DALIE)
Nod	<p>Rydym yn awyddus i dderbyn adroddiad am yr agweddau a chanfyddiadau sydd gan ddisgyblion ysgol blwyddyn 10, 11, a chweched dosbarth sy'n siaradwyr Cymraeg ac o gefndir DALIE tuag at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • addysg ôl-orfodol Cymraeg a dwyieithog (addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch) • yr angen am weithlu gyda sgiliau dwyieithog • cynnig presennol y Coleg (y Cynllun Llysgenhadon a'r Cynlluniau Ysgoloriaethau Cymhelliant yn benodol) <p>Mewn colegau addysg bellach ac yn y maes prentisiaethau, hoffai'r Coleg ddeall yn well ganfyddiadau dysgwyr a hyfforddai o gefndir DALIE ar draws y lefelau iaith o bwysigrwydd gwella a meithrin sgiliau dwyieithog a pherthnasedd hyn i'w dewisiadau nhw o ran meysydd a chyfrwng astudio a'r byd gwaith.</p> <p>Fel rhan o'r adroddiad hoffem dderbyn cyfres o argymhellion ar y camau y dylai'r Coleg ystyried er mwyn cynyddu cyfraddau ymwneud gyda disgyblion, dysgwyr a hyfforddai o gefndir DALIE er mwyn annog mwy ohonynt i fanteisio ar addysg ôl-orfodol Cymraeg a dwyieithog, a sut y gellid cyflawni hyn.</p>
Methodoleg	Grwpiau ffocws ar-lein neu gyfweiliadau dros y ffôn gyda darpar fyfyrwyr mewn ysgolion / colegau addysg bellach / yn y maes prentisiaethau ac ymchwil pen desg.
Allbwn	Adroddiad yn seiliedig ar y grwpiau ffocws / cyfweiliadau a chyfres o argymhellion wedi'u rhestru mewn trefn blaenoriaeth. Hoffem dderbyn argymhellion ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir er mwyn galluogi'r Coleg i ddatblygu strategaeth bum mlynedd i gynyddu'n hymwneud â phobl o gefndir DALIE.
Gofynion Penodol	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r sawl sy'n cyflwyno cais ddangos eu bod yn gallu cynnal grwpiau ffocws / cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r disgyblion, y dysgwyr a'r prentisiaid gynrychioli gwahanol araloedd daearyddol o Gymru. • Dylai'r adroddiad ystyried a oes sefydliadau yng Nghymru y dylai'r Coleg ystyried creu partneriaethau gyda nhw er mwyn symud yr agenda yn ei blaen.
Cynulleidfa	Swyddogion y Coleg
Brand	Bydd disgwyl i'r cwmni llwyddiannus weithio o fewn canllawiau brand y Coleg. Dilynwch y ddolen isod i'w gweld – http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/ffurflenniadogfennau/canllawiaubr and/

AMSERLEN

Dyddiad cychwyn y gwaith/prosiect/gwasanaeth	Bydd angen cytuno ar amserlen addas i gychwyn y gwaith unwaith i'r unigolyn neu'r cwmni llwyddiannus gael eu penodi ond bydd angen cynnal y grwpiau ffocws cyn diwedd blwyddyn academaidd 2020/2021 er mwyn sicrhau mynediad i ddisgyblion ysgol a dysgwyr yn y colegau addysg bellach cyn dechrau'r gwyliau haf.
Dyddiad cwblhau'r gwaith	Rhaid i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Coleg erbyn 13:00 15fed o Fedi, 2021 a dylai'r contractiwr baratoi cyflwyniad i gyfarfod perthnasol o'r Coleg.

CANLLAWIAU YMATEB I'R BRIFF

Gofynnwn i chi ddarparu'r canlynol wrth ymateb i'r briff hwn:

- Datganiad fod gennych y capasiti i gwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen a nodwyd.
- Esboniad cryno o'ch methodoleg ar gyfer cyflawni'r gwaith.
- Datganiad fod gennych y gallu i ddelio â deall testun dwyieithog a chynnal grwpiau ffocws / cyfweiliadau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

- Esiamplau o waith tebyg a gwblhawyd gennych eisoes.
- Dyfynbris ar gyfer y gwaith (yn cynnwys TAW).
- Ymatebion i'w cyflwyno at Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu drwy e-bost g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk

DYDDIAD CAU CYFLWYNO PRIS

- 13:00 dydd Gwener 7 Mai 2021